Gwahoddwyd y rhieni i'r ysgol un prynhawn i gael sgwrs â Mrs Gwyneth Clwyd Jones ac i weld fideo ar lau pen. Yn ddiweddarach cafodd yr athrawon gyfle i gael cyngor ac arweiniad ar sut i drin plant sy'n dioddef o asma.

Croesawn Miss Mererid Evans o Goleg y Brifysgol, Aberystwyth atom am gyfnod o ymarfer dysgu ac edrychwn ymlaen at gydweithio hapus.

Mae'r plant wedi ail-gydio yng ngweithgareddau'r Urdd ac eisioes cafwyd dawnsio gwerin yng nghwmni Mr Dafydd Thomas. Roedd y plant yn mwynhau'n braf a buan y gwelwyd bod dawnsio yng ngwaed rhai ohonynt.

Dymunwn yn dda i Mrs Elizabeth Evans ar ôl ei thriniaeth yn yr Ysbyty.